Rôl Therapydd Galwedigaethol ac Ymarferwr Gofal Cymdeithasol

Rôl Therapydd Galwedigaethol ac Ymarferydd Gofal Cymdeithasol ydi cynnal asesiad yn seiliedig ar angen ymarferol, gan ystyried cyflwr meddygol y person anabl er mwyn nodi unrhyw angen a datrysiad posibl. Os ydi'r asesiad yn canfod bod angen addasu'ch cartref, yna:

- Un dewis fyddai rhoi gwybod i chi am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, neu grant neu gymorth arall sydd ar gael, yn dibynnu ar bwy sy'n berchen ar eich cartref.
- Dewis arall fyddai rhoi cyngor i chi ar symud i eiddo mwy addas, sydd naill ai wedi ei addasu'n barod neu'n fwy addas i'w addasu.

Os ydi'r Therapydd Galwedigaethol neu'r Ymarferydd Gofal Cymdeithasol yn teimlo bod y gwaith yn '*angenrheidiol ac yn briodol*', fe allan nhw eich cefnogi i wneud cais. Byddan nhw'n cysylltu â thîm Amgylchedd Adeiledig neu Wasanaethau Tai Cyngor Sir Ddinbych, neu'r Gymdeithas Dai berthnasol a/neu asiantau priodol eraill, ac yn darparu unrhyw waith papur neu wybodaeth angenrheidiol.

Bydd y Therapydd Galwedigaethol neu'r Ymarferydd Gofal Cymdeithasol yn darparu cyngor ar yr addasiadau sydd eu hangen ac yn rhoi sylwadau ar gynllun a dyluniad y gwaith arfaethedig. Byddan nhw hefyd yn mynychu cynadleddau a phaneli achos ac yn esbonio sut y bydd eich anghenion yn cael eu diwallu gan yr addasiadau.

Dydi'r Therapydd Galwedigaethol na'r Ymarferydd Gofal Cymdeithasol ddim yn gyfrifol am y grant, a does ganddyn nhw ddim mo'r sgiliau na'r wybodaeth i gyfryngu ar bwyntiau technegol o ran adeiledd y cartref neu'r broses adeiladu.